**David Richards OBE**
Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg
Director of Governance and Ethics

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

3 Mawrth 2022

Annwyl Gydweithiwr,

**Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 – cadw cofnodion**

Mae'r Gwir Anrh y Farwnes Heather Hallett wedi'i phenodi'n gadeirydd yr Ymchwiliad statudol sydd ar y gweill ynglŷn â'r pandemig COVID-19. Bydd yr Ymchwiliad, a fydd yn mynd ati i ddechrau'r gwaith archwilio yn nhymor y gwanwyn 2022 yn cael ei sefydlu o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Bydd gan y cadeirydd bwerau llawn, gan gynnwys y pŵer i orfodi'r gwaith o gyflwyno dogfennau a galw tystion i roi tystiolaeth ar lw.

Bydd angen i ystod eang o sefydliadau gydymffurfio â'r Ymchwiliad os gofynnir iddynt wneud hynny. Ysgrifennaf atoch gan ofyn ichi gymryd camau er mwyn sicrhau eich hun y bydd eich sefydliad yn barod i fodloni ei rwymedigaeth gyfreithiol i gyflwyno cofnodion, gwybodaeth a data perthnasol i'r Ymchwiliad fel y gofynnir amdanynt. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad oes unrhyw ddeunyddiau a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad yn cael eu difrodi - gan gynnwys e-byst, negeseuon testun neu WhatsApp a dulliau eraill o gyfathrebu. Gan nad yw cylch gorchwyl yr Ymchwiliad wedi'i osod hyd yma, mae o reidrwydd yn fater o farn o ran a yw deunyddiau yn debygol o fod yn berthnasol i'w waith. Pan fo amheuaeth, dylech dybio y gallai deunyddiau fod yn berthnasol a sicrhau eu bod yn cael eu cadw ac ar gael.

Rwy'n hyderus bod prosesau rheoli cofnodion sydd wedi'u sefydlu'n dda ar waith o fewn eich sefydliad ac eich bod yn ymwybodol o'r angen i gadw cofnodion llawn a chlir o'ch rhan chi mewn digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd gennych, y broses o wneud y penderfyniadau hynny, y rhesymau dros y penderfyniadau hynny, a'r dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i gefnogi'r penderfyniadau. Mae hyn yn berthnasol beth bynnag fo'r fformat ar gyfer cadw'r wybodaeth honno ac ar ba bynnag ddyfais neu system y bydd yn cael ei chadw. Gofynnir ichi barhau i ddilyn y prosesau pwysig hyn.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel **03000 604400**
David.Richards@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr Ymchwiliad yma: [Ymchwiliad Covid-19 y DU (public-inquiry.uk)](https://covid19.public-inquiry.uk).

Yn gywir,

**David Richards OBE**
Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg
Director of Governance and Ethics
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel **03000 604400**
David.Richards@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk